Canfyddiadau ynghylch Gwobr y Faner Las:

Crynodeb o Arolwg Traethau a Thwristiaeth Cymru

2022-23

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Mae Cymru'n enwog am ei harfordir a'i thraethau anhygoel sy'n boblogaidd gyda phreswylwyr ac ymwelwyr. Mae'n rhoi ystod amrywiol o fuddion i bobl a bywyd gwyllt, ac mae'n cefnogi economi Cymru trwy weithredu fel hafan i wneud ymarfer corff, ymlacio neu dreulio amser gyda theulu a ffrindiau. Mae dros 10% o bobl yng Nghymru'n cael eu cyflogi yn y sector twristiaeth1 sydd yn dangos pwysigrwydd arfordir glân, amrywiol sy'n cael ei reoli'n dda i ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd.

Mae Gwobr y Faner Las yn ardystiad rhyngwladol gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol (FEE) sy'n cydnabod bod traeth, marina, neu weithredwr twristiaeth cychod cynaliadwy yn bodloni'r safon uchel gofynnol. Yng Nghymru, gweithredir y wobr trwy Cadwch Gymru'n Daclus. Caiff ei dyfarnu yn seiliedig ar amrywiaeth o feini prawf, gan gynrychioli 'rhagoriaeth amgylcheddol' a nodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Mae Cadwch Gymru'n Daclus hefyd yn cynnal gwobrau rhyngwladol eraill yn cynnwys y rhaglen Eco-Sgolion a Gwobr Goriad Gwyrdd.

Mae'r adroddiad hwn yn datblygu ymchwil debyg o 2017-2018. Mae'n atgyfnerthu ymwybyddiaeth o Wobr y Faner Las yng Nghymru a phwysigrwydd y wobr i'r rheiny sy'n ymweld â'r traeth a'r busnesau lleol sydd wedi eu lleoli gerllaw. Fel gwobr sydd wedi bodoli am yr amser hiraf, y Faner Las yw'r wobr a gydlynir gan Cadwch Gymru'n Daclus sydd yn cael ei chydnabod fwyaf ar hyn o bryd.

Nododd yr arolwg cyhoeddus fod ymwybyddiaeth o'r Faner Las yng Nghymru yn dal yn uchel iawn, gyda mwy na 90% o bobl wedi clywed am y wobr. Mae llawer o gyfranogwyr yn gwybod ei bod yn wobr ryngwladol ar gyfer ansawdd dŵr a glendid traethau, ond mae llai yn sylweddoli'r meini prawf estynedig. Mae dros 50% o bobl yn datgan os nad yw traeth yn chwifio'r Faner Las bellach, y byddai neu y gallai o bosibl effeithio ar eu penderfyniad i ymweld â'r traeth hwnnw, sydd yn dangos cyswllt pwysig rhwng ymwybyddiaeth uchel o'r wobr a'r effaith ar amgyffrediad pobl leol ac ymwelwyr. Roedd ymwybyddiaeth o'r Faner Las hefyd yn uchel ymysg busnesau, gyda bron 80% o ymatebwyr busnes wedi clywed am y wobr. Yn arwyddocaol, cred dros 75% o ymatebwyr busnes fod y Faner Las yn denu ymwelwyr i'w hardal a chred 63.8% fod y wobr yn dod â buddion ychwanegol i'w busnes. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd Gwobr y Faner Las i dwristiaeth a gwariant ymwelwyr.

I gloi, mae ymwybyddiaeth o Wobr y Faner Las yn uchel o ran y cyhoedd a busnesau arfordirol. Gallai'r Faner Las effeithio ar y penderfyniad i ymweld â thraeth penodol ac felly, mae presenoldeb y wobr yn effeithio ar fusnesau a chymunedau cyfagos. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig y mae i awdurdodau lleol, perchnogion tir a phwyllgorau rheoli traethau ymdrechu i gyflawni safon y Faner Las lle y bo'n bosibl nid yn unig ar gyfer y rhagoriaeth amgylcheddol y mae'n ei chynrychioli, ond ar gyfer yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach y mae'n eu cael ar gymunedau lleol. Yn y dyfodol, bydd yn bwysig cynnal addysg amgylcheddol o ansawdd uchel a hyrwyddo gwobrau amgylcheddol er mwyn ysbrydoli newid ymysg cymunedau a gwarchod amrywiaeth a harddwch mannau naturiol yng Nghymru.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13